## CYDWEITHFA FWYD DOLWYDDELAN

Mae Cydweithfa Fwyd Dolwyddelan yn cynnig ffordd syml i brynu ffrwythau a llysiau ffresh yn rhad ac ar yr un pryd cefnogi busnesau lleol. Mae cynnyrch y Gydweithfa’n dod yn uniongyrchol o ffermwyr, siopau a chyfanwerthwyr lleol, sy’n dewis y ffrwythau a’r llysiau yn ôl eu tymor, yn ôl beth sydd ar gael ac yn ôl gwerth am arian.




## Chwedloniaeth Dolwyddelan

## Prosiect Murlun ar gyfer Clwb Ieuenctid Dolwyddelan

Mae Garth Thomas, Gweithiwr Gwasanaeth Ieuenctid Conwy’r Ardal, wrthi’n gwneud cais am arian ar gyfer prosiect i aelodau Clwb Ieuenctid Dolwyddelan. Y bwriad ydi cynllunio a chreu murlun sy’n darlunio chwedlau Dolwyddelan, a’r gobaith ydi cael yr arian mewn pryd iddo fod yn brosiect gwyliau haf. Mae Helen Hardy o westy Castell Elen wedi cytuno i helpu gyda syniadau ar ei gyfer ac, er bod ganddi lawer o syniadau ei hun, mae croeso i chi gynnig rai pellach. Os hoffech chi gyfrannu syniad, cysylltwch â Helen cyn diwedd Mehefin.